Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 656 (Cy. 146)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn rhagnodi personau y caniateir i Weinidogion Cymru ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddynt o dan adran 537A(4) o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod is-baragraff newydd (ff) yn rheoliad 5(2) er mwyn ychwanegu at y rhestr ragnodedig o gyrff y caniateir darparu gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddynt (rheoliad 2(2)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 656 (Cy. 146)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022

Gwnaed	*10 Mehefin 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*14 Mehefin 2022*
Yn dod i rym	*7 Gorffennaf 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537(A)(1), (2) a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) (Diwygio) 2022 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio

2. Yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007(**3**), yn rheoliad 5, ar ddiwedd paragraff (2) mewnosoder—

(**1**) 1996 p. 56. Mewnosodwyd adran 537A gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) ac fe'i hamnewidiwyd gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a diwygiwyd is-adran (1)(a)(i) ymhellach gan O.S. 2010/1158.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2007/3562 (Cy. 312).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(ff) Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau(**1**)."

Jeremy Miles
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
10 Mehefin 2022

(**1**) Mae The Universities and Colleges Admissions Service (Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau) yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gofrestru yn Lloegr Rhif 2839815.